wG35.5.181

# ER SERCHUS GOF

AM Y DIWEDDAR

# *Anna Thomas, Ffynongoeg,*

Bu Farw Mawrth 22, 1902, yn 23 Mlwydd oed.

## Pryddest · Fuddugol · Gwyl · Gadeiriol · Pisgah,

Mawrth 17, 1904,

**Gan y Parch. T. D. Evans ("Gwernogle"), Tyrhos.**

*"Fel blodeuyn y daeth allan."*

SAIF yr angel ddim yn hir
  Ar y ddaear hon,
Mwy na gwên yr huan clir
  Ar wylltineb tòn;
Myn'd i'r nef wna'r coeth o hyd
  Trwy gysgodau'r bedd,
Myna pob sancteiddrwydd fyd
  Llawn emynau hedd.

Bywyd ieuanc gwyn i gyd
  Anna Thomas fad,
Aeth o awyr tristwch byd
  Adref i fwynhad;
Ar ei hol gadawodd foes
  Ddeil o hyd yn fyw,
Perarogli wna ei hoes
  Anian newydd Duw.

Nid oes neb yn myn'd yn hen
  Fedda ysbryd pur,
Ffydd y Groes a geidw'i gwên
  Yn mhob niwl a chur;
Ni newidiodd neb ar dwyn
  Dlysni'r gwanwyn hoeg,
Ac ni chleddir byth o'r fwyn
  Anna "Ffynon Goeg."

Magwyd hi ar aelwyd, fedd
  Barch i Dduw a dyn,
A derbyniodd râs a hedd
  Y Goruchaf Un;
Yn ei chryd yr oedd yn dlos
  Wyryf Ior y nef,
Ac yn ngwyll ei holaf nos
  Cydiai ynddo Ef.

Merch y gwanwyn fu o hyd
  Hyd y gwynfyd draw,
Murmur beunydd yn ei bryd
  Wnai y "Byd a ddaw";
Distaw ydoedd megys swyn
  Lliwiau'r enfys dêr,
Neu oleuni purdeb mwyn
  Nefol swyn y ser.

Mwyniant bywyd mam a thad
  Oedd ei gwyneb llon,
A goleuni'r nefoedd fad
  I'w dau frawd fu hon;
Ni flodeuodd callach un
  Yn noethineb Groeg,
Na'r hawddgaraf, fwynaf fun,
  "Anna Ffynon Goeg."

Diniweidiwydd calon bur
  Ynddi gaed heb fai,
A gobenydd yn ei chur
  O'i *boddlonrwydd* wnai;
Dysgodd fyw i farw'n gref
  Yn ngoleuni ffydd,
Yn ei chystudd canai'r nef
  Iddi "Doriad dydd."

Llawn diwydrwydd oedd ei bryd
  Er yn wan a gwyw,—
Gweithiai nes "gorchfygu'r byd
  Fel gwirionedd Duw;
Penod rasol oedd ei hoes
  O amynedd cain,
Mae y nef ar bwys pob croes,
  A phob "coron ddrain."

Ei sirioldeb yn mhob man
  Oedd o'i chylch yn wledd,
Am fod cref egwyddor dan
  Ei diniwaid wedd;
Gwir garedig oedd o'i chryd
  Fel anadliad ha',
Lle y ceid y fun o hyd
  Ceid y *tlws* a'r *da*.

Caled oedd i'w rhiaint cu
  Wel'd y beddrod erch,
Yn rhoi cwr ei fantell ddu
  Dros eu hunig ferch!
Ond wrth *golli* y mae *cael*
  Ar y ffordd i'r bedd,
O ddefnynau gwaed, heb ffael,
  Tyf rhosynau hedd.

Os oedd dagrau ar ei grudd,
  Yn y cystudd mawr,
Aeth ei henaid gwyn yn rhydd
  O gadwynau'r llawr;
Fry o fewn y nefol wlad
  Mewn goleuni glân,
Troes ei phoenau yn fwynhad
  A'i gruddfanau'n gan!

Ofer wylo ar ei hol—
  Gwynfydedig yw,
Ni wna'n dagrau'i dwyn yn ol
  O'r Baradwys wiw;
Yn hen fynwent Pisgah, bydd
  Blodau ar ei bedd,
Hyd nes daw o hono'n rhydd
  Ar ei newydd wedd.

*J. D. Lewis, Ager Argraffydd, Gomerian Press, Llandyssul.*

10895

XROS 314820